# Profi, Olrhain, Diogelu: sgript fideo

1 Da ni heddiw wedi cyhoeddi ein hadroddiad sy’n disgrifio cyfraniad y rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu i reoli COVID- un-deg-naw yng Nghymru.

2 Y peth cyntaf i'w ddweud yw y gall y gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus sydd wedi bod yn rhan o sefydlu'r rhaglen deimlo'n falch iawn o'r hyn y maent wedi'i gyflawni.

3 Mae system o brofi ac olrhain cysylltiadau, a darparu cymorth ar gyfer hunanynysu, wedi'i sefydlu'n bennaf o'r newydd ac ar raddfa a chyflymder eithriadol.

4 Mae'r rhaglen wedi bod o dan bwysau gwirioneddol ar adegau, ac mae wedi ymateb yn dda i'r heriau hyn, gan ddangos y gallu i esblygu'n gyflym a gwneud cyfraniad pwysig at reoli COVID- un-deg-naw.

5 Bydd y rhaglen yn parhau i fod â chyfrifoldeb allweddol o ran cadw golwg ar ledaeniad y feirws, mae ein hadroddiad yn tynnu sylw at rai meysydd y bydd angen rhoi sylw iddynt wrth inni barhau drwy gweddill y flwyddyn hon. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod y dull o brofi yn parhau i esblygu, yn enwedig mewn ysbytai, a bod gennym weithlu sefydlog, hyblyg a gwydn i gefnogi olrhain cysylltiadau amserol.

6 Ac yn olaf, er bod y gwaith o ddarparu brechiadau yn digwydd ar garlam, bydd y rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu yn parhau i fod â swydd hollbwysig i'w chwarae o ran cefnogi'r cyhoedd i hunanynysu er mwyn cadw'r feirws o dan reolaeth, a'n helpu i ddychwelyd yn araf i ryw fath o normalrwydd yn y dyfodol.